O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2525 (Cy. 277)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hereford Road, Man i'r Gogledd o'r Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Hydref 2012* |
| *Yn dod i rym* | *8 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hereford Road, Man i'r Gogledd o'r Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 8 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A465, a elwir Hereford Road, rhwng System Gylchu

Hardwick, Y Fenni a Triley Mill, yn Sir Fynwy ac a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur gael ei yrru, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur gael ei yrru, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 4 Hydref 2012

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r de o ganolbwynt trosbont Pen-y-fâl, hyd at bwynt 360 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r heol i Ben-y-parc.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwaharddiad Dros Dro ar Oddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 15 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r heol i Ben-y-parc hyd at bwynt 200 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 3

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

i) Y darn cyfan o'r gilfan sy'n gyfagos i'r lôn tua'r de ar gerbytffordd y gefnffordd, ac sydd wedi'i leoli i'r de o danbont Maindiff Court.

ii) Y darn cyfan o'r gilfan sy'n gyfagos i'r lôn tua'r gogledd ar gerbytffordd y gefnffordd, ac sydd wedi'i leoli i'r de o danbont Llandeilo Bertholau.